## Beth yw Nod Masnach?

Mae nwyddau ffug –

- yn defnyddio Nod Masnach Cofrestredig rhywun heb ganiatâd
- yn defnyddio Nod Masnach Cofrestredig rhywun heb ganiatâd neu'n 'camarwain' prynwyr fel y nodir mewn Cyfraith Cyffredin.

Arwydd o ryw fath yw Nod Masnach a gall gynnwys geiriau, dyluniadau, llythrennau, rhifau neu yw unrhyw arwydd neu siâp y gellir eu defnyddio i wahaniaethu rhwng eich nwyddau neu'ch gwasanaethau chi a nwyddau neu wasanaethau eraill.

Mae modd defnyddio hawlfraint i ddiogelu'ch gwaith - o lyfrau i raglenni cyfrifiadur, o ddramâu i ffotograffau, o ffilmiau i raglenni teledu a cherddoriaeth sydd wedi'i recordio.

Mae nwyddau ffug fel arfer o ansawdd wael ac, weithiau, gallant fod yn beryglus. Er enghraifft :

- teganau a nwyddau trydanol anniogel
- gwinoedd a  gwirodydd gwenwynig
- meddyginiaeth aneffeithiol

**Archwiliadau ac ymchwiladau i nwyddau ffug**

Rydym yn cynnal archwiliadau penodol i ymladd yn erbyn y rhai sy'n gwerthu nwyddau ffug ac yn ymchwilio i unrhyw wybodaeth a gawn gan fusnesau a'r cyhoedd.

Os cawn hyd i unrhyw un sydd ynghlwm wrth gyflenwi nwyddau ffug, gall wynebu cosb o 10 mlynedd o garchar a/neu ddirwy o £5000 am bob trosedd. Mae'r fasnach annheg a pheryglus hon yn effeithio ar fusnesau a defnyddwyr lleol.